# Crynodeb Gweithredol: Hunanasesiad o Berfformiad, o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024

Ynghyd â'n hadroddiad perfformiad ar gyfer 2023 i 2024 mae'r ddogfen hon yn llunio ein Hunanasesiad sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n grynodeb diwedd blwyddyn hwylus o'n perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau allweddol ac yn benodol ein Hamcanion Lles (y cyfeirir atynt hefyd fel ein Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol) a'r saith maes llywodraethu. Mae'r dystiolaeth y tu ôl i'r canlyniadau yn y ddogfen i'w chael yn yr adroddiad perfformiad cysylltiedig.

**This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Rydym yn fwy na bodlon darparu'r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille. Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol am ragor o wybodaeth.**



Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Conwy - a progressive County creating opportunity

# Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Hoffem glywed gennych os ydych o'r farn bod ein blaenoriaethau'r rhai gorau ar gyfer eich cymuned a beth yw eich barn ar y ffordd yr ydym yn perfformio yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Am fwy o wybodaeth, neu i roi eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**E-bost:** TGDC@conwy.gov.uk

**Ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnyn nhw.

**Iaith Arwyddion**

Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy Wasanaeth InterpretersLive! sy'n cael ei gynnig gan Sign Solutions.

**Drwy'r post:**

Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1, Conwy, LL30 9NG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen gwe 'Dweud eich dweud'

## Rydym eisiau clywed barn Pobl Ifanc!

Nid oedolion yn unig sy’n gallu dweud eu dweud. Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eu barn nhw hefyd!

Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi fel person ifanc allu dweud eich dweud yng Nghonwy. Mae pob un o’r gwasanaethau sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghonwy’n rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud. Yn benodol, mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi o ran penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae’r cynrychiolwyr yn eich cynrychioli chi ac yn gallu lleisio barn ar bethau sy’n gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yng Nghonwy.

Os hoffech gymryd rhan ewch i dudalen Facebook Cyngor Ieuenctid neu fynd i wefan Gwasanaeth Ieuenctid neu cysylltwch â ni:

**E-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnyn nhw.

**Trwy Facebook, X (Twitter) ac Instagram:** @GIConwyYS

# Cynnwys

Ein Dull Hunanasesu ....... 5

Pa mor dda ydym ni'n ei wneud ar y cyfan? ....... 5

Perfformiad - Amcanion: Cynllun Corfforaethol 2022-2027 ....... 8

1. Amgylchedd sy'n derbyn gofal ac yn cael ei werthfawrogi ....... 8
2. Economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi ....... 8
3. Addysg a Sgiliau ....... 9
4. Llety fforddiadwy, priodol ac o safon dda ....... 9
5. Teimlo'n ddiogel a diogelwch ....... 10
6. Yn iach ....... 10
7. Y Gymraeg yn ffynnu ....... 11
8. Yn wybodus, yn rhan ohono, gyda llais ac yn cymryd rhan yn y gymuned ....... 11
9. Cyngor cadarn ....... 11

10. Swyddogaethau Llywodraethu ....... 12

10.1. Cynllunio Corfforaethol ....... 12
10.2. Cynllunio Ariannol ....... 12
10.3. Rheoli Perfformiad ....... 13
10.4. Rheoli Risg ....... 13
10.5. Cynllunio'r Gweithlu ....... 14
10.6. Asedau ....... 14
10.7. Caffael ....... 15

11. Gwiriwr Taith - Ffyrdd Newydd o Weithio ....... 15

## Ein Dull Hunanasesu

Rydym yn gobeithio y gwelwch ymagwedd wedi'i adnewyddu at y ffordd yr ydym yn adrodd ar ein perfformiad yn y ddogfen hon a'r adroddiad cysylltiedig ar berfformiad sydd wedi cael ei ddylunio i gwrdd â'n safonau hygyrchedd yn well. Yn ogystal â'n data arferol a'n diweddariadau ar weithgareddau maen nhw'n cynnwys dadansoddiad ar dueddiadau a chrynodeb cynhwysfawr ond eto'n hawdd ei amgyffred gyda chrynodeb gytbwys o straeon newyddion allweddol a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan ein prif bwyllgorau (Y Cyngor, Cabinet, Craffu a Llywodraethu ac Archwilio). Rydym hefyd wedi cynnwys adroddiadau wedi'u cyflawni gan ein rheoleiddwyr.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi trosolwg beirniadol o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ein prif adroddiad ar berfformiad ac i ba raddau mae ein perfformiad yn creu canlyniadau cadarnhaol a pha mor dda mae ein trefniadau llywodraethu'n cefnogi gwelliant parhaus. Mae'r crynodeb hwn hefyd yn edrych tua'r dyfodol ar gyfleoedd a heriau allweddol. Mae ymateb y ddau adroddiad i ofynion perfformiad y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae'n cyflwyno darlun amlwg o 'iechyd corfforaethol' cyffredinol y sefydliad.

Wrth symud ymlaen y bwriad yw diweddaru ein hadroddiad perfformiad bob chwe mis gan fynd o fis Ebrill i fis Medi ac o fis Hydref i fis Mawrth a'i fod eto'n cael ei grynhoi unwaith y flwyddyn. Mae'r adroddiadau perfformiad yn parhau i gofnodi cynnydd nid yn unig yn erbyn ein gweithgaredd Cynllun Corfforaethol allweddol ond hefyd unrhyw weithgaredd gwelliant wedi'i nodi ac sy'n deillio o'r adroddiadau (sy'n ofynnol o dan y ddeddf) ac unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt wrth ymateb i weithgaredd rheoleiddio neu herio cyfoedion. Mae'r adroddiadau hefyd yn helpu i gasglu themâu o welliannau sy'n codi o'n proses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth sydd eto'n gnewyllyn pwysig yn ein fframwaith rheoli perfformiad ac yn sicrhau ein bod yn sefydliad sy'n hunanasesu yn barhaus.

## Pa mor dda ydym ni'n ei wneud ar y cyfan?

Mae'n rhaid pwysleisio bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol yn ariannol i ni fel cyngor (fel y mae wedi bod i'r sector gyhoeddus yn ei gyfanrwydd) gydag aelodau a swyddogion yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau ein bod yn darparu cyllideb gytbwys yn 2023 i 2023 sydd wedi cynnwys arbedion o £11.6m yn y gyllideb. Mae'r galw am wasanaethau trwy gydol y flwyddyn yn parhau i dyfu a bu costau na ragwelwyd o

ganlyniad i Storm Babet. O ganlyniad mae ein gwariant wedi bod yn £1.4m yn fwy na'n hincwm sydd wedi cael ei ariannu o'n cronfeydd wrth gefn. Mae'r her o'n blaenau'r un mor anodd ac nid ydym yn llaesu dwylo ynglŷn â pha mor anodd fydd pethau.

Mae'r isod yn crynhoi ein perfformiad a'n prosesau llywodraethu dros y flwyddyn mewn ambell sylw am ein cryfderau a'n gwendidau, a chyfleoedd a heriau.

1. Ar y cyfan rydym wedi gwneud llawer o waith da wrth geisio cefnogi ein blaenoriaethau corfforaethol. Rydym wedi ymateb yn gyfrifol i'r pwysau ariannol y mae'r holl awdurdodau lleol yn ei wynebu ac wedi gwneud defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau. Mae ein prosesau llywodraethu yn gynhwysfawr ac rydym wedi ail ganolbwyntio cymhwysedd ar lefel uwch-reolwyr ac mae'r newidiadau hyn yn gweithio'n dda.
2. Rydym wedi arddangos ymrwymiad amlwg i'r amgylchedd gan weithio i fynd i'r afael â'n ôl-troed carbon a'r argyfwng hinsawdd. Rydym wedi gweithio gyda chymunedau ar nifer o brosiectau pwysig sy'n dangos ein bod yn parchu natur a hefyd yn cefnogi llesiant. Er hynny rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith angen ei wneud i gyrraedd sero net erbyn 2030.
3. Rydym wedi atynnu £42.6 miliwn o gyllid allanol i gefnogi adfywio, celf a threftadaeth, busnesau a chymunedau ac wedi darparu nifer o brosiectau trawsnewidiol pwysig mewn partneriaeth â llywodraethau Cymru a'r DU. Rydym hefyd wedi darparu (gyda chyllid gan Lywodraeth y DU) nifer o brosiectau allweddol sy'n hyrwyddo rhifedd oedolion, lles corfforol a chynnig cymorth cyflogadwyedd a gwell cyfleusterau cymunedol.
4. Mae ein gwaith Gwasanaeth Ieuenctid wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol am ei ragoriaeth ac rydym wedi cyflwyno'r rhaglen prydau ysgol am ddim i'r holl ysgolion cynradd saith mis o flaen amser.
5. Rydym wedi cryfhau ein strwythurau i gefnogi tai a chael cofnod cadarn o ddarparu mewn perthynas â darparu tai fforddiadwy ac i ailddefnyddio eiddo gwag. Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau i geisio atal digartrefedd er ein bod yn cydnabod y pwysau parhaus sy'n bodoli yn y maes hwn.
6. Rydym wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid i gadw ein cymunedau'n ddiogel ac mae diogelu yn amlwg yn flaenoriaeth gref yn ein sefydliad. Yn benodol rydym yn darparu gwaith trawsffurfiol cyffrous a sylweddol iawn ym maes gofal plant. Rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol ers y pandemig ac wrth gwrs yr argyfwng costau byw yn enwedig mewn Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen

drawsnewid ac yn edrych ar gyfleoedd i gydweithio gyda'n partneriaid pan fydd hynny'n briodol i wneud y mwyaf o adnoddau i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

7. Mae diwylliant ac ethos amlwg yn ein sefydliad sy'n cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg ac i adeiladu hyder y staff hynny sydd eisoes yn siarad yr iaith i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae gennym hefyd gynllun amlwg i gefnogi'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg ac yn edrych i annog cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
8. Mae enghreifftiau o ymgysylltiad cyhoeddus da ledled y sefydliad yn arbennig o gwmpas y gyllideb a byddwn yn parhau i ystyried y ffordd y byddwn yn cyflawni ymarferion ymgysylltiad effeithiol ac ystyriol gyda budd-ddeiliaid yn gyson. Rydym yn cydnabod yn ein strategaeth ymgysylltu'r pwysigrwydd o gwrdd â phobl ar eu telerau nhw ac nid ar ein telerau ni.
9. Mae ein Cynllun Conwy Gynhwysol yn gam pwysig at gyflawni mwy o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein sefydliad a'r sir. Trwy'r cynllun hwn ein nod yw gwreiddio diwylliant o ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb unigol ymhlith staff waeth beth yw eu cefndir neu brofiadau. Mae gennym oll gyfrifoldeb ar y cyd i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
10. Rydym yn gwneud gwaith da er mwyn cefnogi datblygiad staff, ffyrdd hybrid o weithio a lles sydd yn bwysicach nag erioed yn ystod yr amseroedd anodd presennol. Byddwn yn parhau i sicrhau fod ein staff yn cael eu cefnogi'n dda a bod y sefydliad cyfan yn gwrando arnyn nhw. Rydym yn parhau i wynebu anawsterau recriwtio sydd eisoes yn dioddef o leihad mewn gwariant ar gyfer rhai meysydd. Ar gyfer rhai proffesiynau mae'r adolygiad o brosesau, brand a dulliau hysbysebu wedi gweld ychydig o welliant mewn recriwtio.
11. Rydym wedi arddangos ein bod yn rhagweithiol yn y ffordd yr ydym yn rheoli asedau allweddol yn cynnwys trosglwyddo neu waredu. Mae ein hymateb i'r broblem gyda Choncrit Awyredig wedi'i Awtoclafio yn arbennig i'w ganmol. Ond mae cyfyngiadau ariannol yn mynd i gael effaith negyddol ar ein gallu i gynnal ein hasedau ac i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â gofynion penodol ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd dros y flwyddyn nesaf (yn enwedig gwaith a chaffael partneriaeth gymdeithasol) a fydd unwaith eto yn anodd oherwydd lleihad mewn adnoddau.
12. Rydym yn adolygu os yw'r systemau a'r prosesau presennol yn briodol ac yn gymesur ag anghenion presennol y sefydliad. Er bod llai o gymhwysedd gan fod y gweithlu'n lleihau yn broblem fawr mae yna gyfleoedd parhaus i ystyried ffyrdd trawsnewidiol newydd o weithio, lleihau biwrocratiaeth, gweithio mewn partneriaeth a defnyddio

technolegau newydd. Byddwn yn parhau i ymdrechu i fod yn fwy hyblyg wrth adnabod a datrys rhwystrau i gynnydd ac yn sicrhau ein bod yn aros yn wydn wrth i'n cymhwysedd leihau.

13. Yn deillio o'r adroddiad hwn rydym wedi adnabod rhai gwelliannau allweddol i'w gwneud dros y flwyddyn nesaf i'n fframweithiau Perfformiad a Rheoli Risg gan gefnogi Cynllun Corfforaethol diwygiedig sy'n darparu cadernid yn wyneb heriau ariannol.

# Perfformiad - Amcanion: Cynllun Corfforaethol 2022-2027

## 1. Amgylchedd sy'n derbyn gofal ac yn cael ei werthfawrogi

Rydym yn gwneud gwaith da wrth gefnogi'r Amgylchedd ac mae Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at hynny drwy ddatgan fod gennym weledigaeth glir a chefnogaeth strategol ar waith i helpu gyda chyflawni targedau carbon sero net. Rydym hefyd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd ac yn y cyfnod diwethaf hwn wedi cymeradwyo ein Cynllun Cyflawni Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau ar gyfer 2023 i 2026. Mae holl weithgareddau'r Cynllun Corfforaethol yn datblygu heb unrhyw bryderon ar hyn o bryd ac mae mesurau allweddol yn darparu darlun cadarnhaol. Rydym wedi darparu nifer o brosiectau cymunedol pwysig sydd wedi arddangos parch ac ystyriaeth i natur a byddwn yn parhau i gefnogi'r achos o feithrin a gwarchod ein hasedau naturiol pwysig, gweithio gyda phartneriaid allweddol yn y rhanbarth a helpu i wneud y mwyaf o unrhyw adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â graddfa'r broblem. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo'r manteision lles gyda mynediad i amgylchedd glân a deniadol gan barhau ei waith da i ddatblygu teithio llesol ymhellach ac ati. O ran cyflawni carbon sero net yr her fydd cynnal cyflymdra cyson o welliant fel 'enillion cyflym' a defnyddio'r holl adnoddau ariannol.

## 2. Economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi

Rydym yn gwneud llawer i gefnogi busnesau lleol a'r economi gan ddarparu nid yn unig cyngor i fusnesau a chefnogaeth ond hefyd yn helpu trwy amryw o gynlluniau grant. Rydym wedi atynnu tua £42.6 miliwn mewn cyllid ychwanegol i gefnogi adfywio, celf a threftadaeth, busnesau a chymunedau. Mae gwaith da yn cael ei wneud i helpu pobl i gyflogaeth trwy weithgareddau Canolbwynt Cyflogaeth a'r digwyddiad Ffair Swyddi llwyddiannus wnaeth atynnu dros 1000 o bobl a thua 90 o sefydliadau. Rydym wedi cefnogi nifer o brosiectau pwysig i helpu gydag adfywio cymunedau a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel Llywodraeth y DU a'r Fargen Dwf Gogledd Cymru i sicrhau fod buddion y dyfodol yn cael eu gwireddu yng Nghonwy. Mae

ein hymagwedd i dwristiaeth a chefnogi digwyddiadau diwylliannol lleol hefyd yn glod i ni gyda Chynllun Rheoli Cyrchfan yn ei le ynghyd â'n strategaeth 'Creu Conwy'. Fodd bynnag mae'r her fwyaf yn parhau - dod o hyd i ddigon o gyllid i gefnogi ein dyheadau.

## 3. Addysg a Sgiliau

Roedden ni'n falch o dderbyn adroddiad cadarnhaol gan Estyn yn canmol ein gwaith i staff ysgol a gwella safon y dysgu a'r addysgu mewn ysgolion. Roedd Gwasanaethau Ieuenctid yn cael eu cydnabod hefyd am ddarparu gweithgareddau o fudd i bobl ifanc (mae'r tîm hefyd wedi derbyn Marc Ansawdd Aur am ei Waith Ieuenctid yng Nghymru). Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol rydym wedi gwneud cynnydd gwych gyda'n gweithgaredd wrth gefnogi Addysg a Sgiliau dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys darparu prosiectau wedi'u hariannu gan Lywodraeth y DU sy'n hyrwyddo rhifedd i oedolion, lles corfforol ac yn cynnig cefnogaeth cyflogadwyedd ac yn gwella cyfleusterau cymunedol. Mae ein Tîm Arlwyo mewn Ysgolion wedi derbyn nifer o wobrau sy'n cydnabod eu gwaith da i gefnogi bwyta'n iach, ategu'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud mewn ysgolion i ddeall lles disgyblion. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol ers y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith ar bobl ifanc a'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae presenoldeb yn un maes penodol lle mae pryder yn parhau i fodoli yn genedlaethol ac rydym yn cydweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau fod gweithdrefnau presenoldeb cadarn yn cael eu gweithredu. Mae'r ganran o bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ac sydd ddim mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yn parhau i fod yn faes pwysig o ffocws i ni. Gallwn ragweld fod costau chwyddiant cynyddol yn rhoi pwysau ar ein rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn y dyfodol. Roedd risg wedi'i amlygu hefyd ar ôl cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2024 am ddyfodol consortia gwella ysgolion yng Nghymru; er hynny mae gennym gynllun clir yn ei le. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid gwella ysgolion i sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i fonitro a gwella safonau ysgolion.

## 4. Llety fforddiadwy, priodol ac o safon dda

Rydym wedi gwneud gwaith da gyda datblygu ein strategaeth tai yn cynnwys trefniadau llywodraethu clir a heb anghofio creu gwasanaeth tai penodol a phenodi swydd uwch i oruchwylio a chanolbwyntio ar y maes pwysig hwn o waith. Mae angen canmol ein hymdrechion o ganolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy ac ailddefnyddio eiddo gwag ac rydym wedi bod yn bendant o ran ein hymagwedd i ail gartrefi yn y sir. Mae gwelliant amlwg gyda'r gwaith o atal digartrefedd; ond wrth gwrs mae her sylweddol yn parhau o'n blaenau yn y maes hwn gyda galw sylweddol a chynyddol. Hefyd mae heriau yn parhau yn

y sector gofal sy'n ansefydlog a chostus.  Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid a phan yn bosib yn edrych ar gyfleoedd partneriaeth newydd i gryfhau ein gwaith ymhellach yn y meysydd pwysig hyn.

## 5. Teimlo'n ddiogel a diogelwch

Rydym yn parhau i wneud cynnydd cadarn a sefydlog gyda'r flaenoriaeth hon yn arbennig o ran cyflwyno hyfforddiant diogelu a hanfodion seiber pwysig ymysg ein staff. Rydym hefyd yn datblygu nifer o brosiectau allweddol i wella safon y ddarpariaeth gofal ac mae llawer o'r rhain yn cael eu cyflawni ar y cyd â phartneriaid.  Rydym wedi gwneud gwaith da i feithrin cydlyniant cymunedol ac i sicrhau fod ein cymunedau yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ac mi fyddwn yn sicrhau fod y gwaith yn parhau er y pwysau sy'n bodoli o ran trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.  Mae lleihad mewn adnoddau yn pwysleisio'r angen i barhau gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol fel yr heddlu a chydweithwyr diogelwch cymunedol pan fo hynny'n bosib. Rydym wedi ymdrechu'n sylweddol fel sefydliad i godi ymwybyddiaeth o fygythiadau diogelwch seiber a defnydd diogel ar-lein. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein hymdrechion yn y maes pwysig hwn i ddiogelu ein systemau TG.

## 6. Yn iach

Mae'r gwaith wedi'i gyflawni gan ein gwasanaethau i gefnogi'r flaenoriaeth hwn yn eang ac amrywiol gyda datblygiadau sylweddol yn digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi parhau i wneud penderfyniadau buddsoddi strategol pwysig i wella cyfleusterau a gwasanaethau hamdden, chwaraeon a gofal cymdeithasol allweddol.  Rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio ein cyfleusterau hamdden a'n haelodaeth ffitrwydd. Rydym wedi gwneud gwaith da i wneud gwasanaethau yn fwy cynhwysol ac i helpu gyda lleihau tlodi a chefnogi'r rheiny sydd dan anfantais yn economaidd gymdeithasol.  Y rhaglen waith fwyaf sylweddol o'n blaenau yw trawsnewid profiadau gofal plant yn enwedig y rheiny mewn lleoliadau â chostau uchel. Mae adborth gan ein cwsmeriaid a'n rheoleiddwyr yn gadarnhaol yn bennaf a phan fydd angen gwneud gwelliannau byddwn yn gweithredu ein cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Rydym yn parhau i wneud ymdrech i sicrhau bod ein gwasanaethau mor effeithiol â phosib; fodd bynnag, gall hyn effeithio ar ansawdd wrth i adnoddau gael eu cywasgu. Yr heriau mwyaf sy'n ei hwynebu fel cyngor wrth gwrs yw anghenion gofal a chostau gofal cynyddol. Mae effaith yr argyfwng costau byw yn parhau i fodoli.  Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol pan fydd hynny'n bosib.

## 7. Y Gymraeg yn ffynnu

Rydym wedi gwneud gwaith da yn ystod 2023 i 2024 yn hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi disgyblion, ysgolion a staff i ddatblygu eu sgiliau ac i ddysgu'r iaith ac i fagu hyder a sgiliau ymysg siaradwyr Cymraeg. Yn arbennig rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau arloesol i gefnogi staff wrth iddyn nhw ddysgu ac mae llawer wedi cymryd rhan yn y mentrau hyn. Er hynny mae llawer o waith angen cael ei wneud i gwrdd â'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i gyflawni'r targed cenedlaethol o 1 miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; ac i gynyddu hyfedredd yn y Gymraeg o fewn ein gweithlu gan helpu i gwrdd â fframwaith Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru sy'n sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu dewis iaith.

## 8. Yn y gymuned maen nhw'n teimlo'n wybodus, yn rhan ohono, gyda llais ac yn cymryd rhan

Rydym wedi datblygu gwaith pwysig iawn ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod 2024 i 2025. Yn ogystal â mabwysiadu'r Siarter Gwrth-Hiliol mae'r Cyngor wedi cymeradwyo ei Gynllun Conwy Gynhwysol ar gyfer 2024 i 2028 sydd â'r nod o gyflwyno cyfrifoldeb ar y cyd ymysg staff i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.  Rydym hefyd wedi arwyddo ymgyrch 'Debate Not Hate' y Gymdeithas Llywodraeth Leol sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd o barchu ein gilydd ac i beidio â goddef camdriniaeth. Er mwyn cefnogi democratiaeth ymhellach rydym wedi adolygu'r dosbarthiadau etholiadol, wedi mabwysiadu ein Polisi Cyfarfod Aml-Leoliad, Protocol Gwe-ddarlledu a Chanllaw Arfer Orau ac wedi derbyn newidiadau i'n Cynllun Deiseb. Rydym wedi cyflawni gwaith i gefnogi cyfleoedd gwirfoddol mewn cymunedau ac wedi gofyn i fudd-ddeiliaid allweddol i gymryd rhan - yn cynnwys preswylwyr, partneriaid a busnesau - ar feysydd polisi allweddol sy'n cael effaith ar y cyhoedd fel ar y gyllideb, oriau agor llyfrgelloedd, strategaeth toiledau cyhoeddus a'r Cynllun Datblygu Lleol. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith da yr ydym yn ei wneud gydag ymgysylltu. Mae heriau sylweddol yn parhau i fodoli nid yn unig o ran adnoddau ond hefyd mewn cynnal ymagweddau ymgysylltu effeithiol ac ystyriol ledled ein busnes. Byddwn hefyd yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth gynnwys a hyrwyddo hawliau unigolion o bob cefndir.

## 9. Cyngor cadarn

Yn ystod 2023 i 2024 rydym wedi parhau i ddarparu prosiectau er mwyn cefnogi lles staff yn ogystal â chefnogi eu datblygiad personol a phroffesiynol. Bydd y fersiwn digidol a

mwyaf diweddar o Sgwrs Conwy yn cael ei gyflwyno yn ystod 2024 i 2025 a'r gobaith yw gwella ein hymagwedd i gyfarfodydd staff un i un gyda rheolwyr atebol. Mae ein Fframwaith Doethwaith yn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r ffyrdd mwyaf manteisiol o weithio. Er hynny rydym yn camu i'r cyfnod mwyaf heriol yn ariannol a bydd ein gwydnwch yn y dyfodol yn dibynnu'n llwyr ar lefel y cyllid gan y llywodraeth a'n gallu i wneud penderfyniadau anodd dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf i sicrhau cynaliadwyedd parhaus. Mae mewnbwn parhaus a negeseuon clir i'r cyhoedd a'r staff trwy gydol y cyfnod hwn yn hanfodol ac mae'n rhaid bod yn ystyriol o les ar amser lle mae heriau recriwtio a chynhaliaeth yn parhau i fodoli gennym mewn rhai meysydd gwasanaeth allweddol.

## 10. Swyddogaethau Llywodraethu

### 10.1. Cynllunio Corfforaethol

Mae gennym strwythurau swyddogion ac aelodau cadarn i gefnogi cynllunio strategol yn y sefydliad ac rydym wedi cael ein sicrhau ein bod yn cwrdd â'r gofynion deddfwriaethol allweddol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Rheoliadau (Cymru) 2011 dilynol. Mae'r Prif Weithredwr wedi parhau gyda'r gwaith recriwtio a newid swyddi allweddol o fewn y strwythur arweinyddiaeth gan wella gwydnwch ar lefel uwch. Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi dod i'r canlyniad nad oes problemau llywodraethu sylweddol ond mae'n tynnu sylw at bryderon am anawsterau ehangach gydag adnoddau, cymhwysedd staff a lles. Mae dealltwriaeth dda o'r problemau hyn ac mae angen gwneud gwaith sylweddol ar y materion hyn yn enwedig er mwyn gwneud yn siŵr bod staff yn cael eu cefnogi'n dda. Wrth ymateb i'r heriau ariannol y mae'r awdurdod yn ei wynebu byddwn yn darparu cynllun clir ar wydnwch, defnyddio technoleg a thrawsnewid darpariaeth pan fo'n bosib. Bydd y ffocws hwn yn creu'r sail i Gynllun Corfforaethol wedi'i resymoli sy'n cwrdd â phwysau ar y gyllideb yn well ac yn rhyddhau cymhwysedd pan fo hynny 'n bosib.

### 10.2. Cynllunio Ariannol

Mae'r naratif trwy'r holl grynodeb a'r adroddiad Hunanasesu yn glir iawn o ran yr heriau ariannol sydd o'n blaenau. Mae'r sefyllfa yn ddifrifol iawn ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau cynaliadwyedd parhaus y cyngor fel sefydliad. Mae cydbwyso'r gyllideb yn hanfodol ond mae gohirio unrhyw wario a phenderfyniadau buddsoddi hefyd yn golygu ôl-groniad o broblemau ar gyfer heddiw a'r dyfodol gyda phwysau ar gymhwysedd ac

adnoddau yn effeithio ar ddarpariaeth o ddydd i ddydd a phortffolio asedau yn dirywio yn sgil mwy o risgiau a diffyg buddsoddiad neu gyfleoedd i waredu.  Yr elfen gadarnhaol yn hyn i gyd yw bod gennym brosesau ariannol cadarn yn eu lle a chynllun gwytnwch. Rydym wedi gweithio â’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i adolygu meysydd o wariant allweddol yn llym yn ogystal ag edrych ar brosesau busnes ac atebion digidol i leihau gwariant.  Hefyd mae goruchwyliaeth wleidyddol amlwg. Byddwn yn parhau i fod mor llym â phosib wrth graffu cyllidebau gwasanaethau yn ystod 2024 i 2025 a thu hwnt ac yn gwneud popeth yn ein gallu i wneud y mwyaf o’r incwm a’r ffrydiau cyllid allanol. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i weithredu modelau darparu gwasanaeth gwahanol ac i groesawu technolegau a mentrau newydd ac i gydweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol (yn y sir a’r rhanbarth) i ddarparu a dylanwadu’r galw ar wasanaethau pan fo’n bosib.  Byddwn yn parhau i fod yn ystyriol o les staff ac yn eu cynnwys nhw ar y siwrnai heriol hon.

## 10.3. Rheoli Perfformiad

Mae gennym drefniadau rheoli perfformiad cadarn yn eu lle sy’n gyfrifol am amryw o weithgareddau o’n Cynllun Corfforaethol i reoli rhaglen a phrosiect, adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, canmoliaethau a chwynion, gwaith rheoleiddio a gweithgareddau’r pwyllgorau allweddol. Rydym hefyd wedi parhau gyda’n rhaglen o Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn sy’n rhan bwysig o’n prosesau sy’n galluogi hunanasesu parhaus. Rydym wedi dangos ein bod yn ymateb i geisiadau pwyllgorau sy’n helpu i gryfhau ein gweithdrefnau ac wedi nodi trwy’r Hunanasesiad feysydd pellach i’w gwella. Ar ôl rhesymoli’r Cynllun Corfforaethol yn ystod 2024 i 2025 byddwn yn ail-edrych ar fframwaith perfformio’r Cynllun i wella meincnodi a gwybodaeth o safbwynt y defnyddiwr. Byddwn yn ail-edrych ar ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei gyfanrwydd er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gymesur â gofynion y sefydliad. Bydd yn cynnwys adolygiad o’r broses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth.

## 10.4. Rheoli Risg

Mae gennym brosesau aeddfed ar reoli risg a phroblemau yn eu lle gyda digon o ymgysylltu gan swyddogion ac aelodau.  Mae’r gofrestr risg corfforaethol yn cynnal tua 25 risg ac mae 11 ohonyn nhw’n parhau i fod yn risgiau critigol i fusnes y cyngor.  Mae’r Cofnod Materion Corfforaethol yn cofnodi 12 achos, 11 ohonyn nhw o bosib o flaenoriaeth uchel.  Mae’r dogfennau hyn (efallai mwy nag unrhyw rai eraill) yn tynnu sylw at yr amgylchedd hynod o anodd yr ydym yn gweithredu ynddo.  Mae’n amserol felly bod y

Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Cofnodion Materion yn cael adolygiad mwy cynhwysfawr gyda pherchnogion risg ac achosion i resymoli'r cofrestrau a'r rheolaethau pan fo hynny'n bosib. Bydd ein Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei adolygu ar y cyd â hyn gyda hyfforddiant newydd yn cael ei gyflwyno i swyddogion ac aelodau.

## 10.5. Cynllunio'r Gweithlu

Dydi'r lleihad pellach mewn gwariant ddim yn helpu gyda'r heriau ariannol o'n blaenau ac mae'n rhoi ein gweithlu o dan bwysau sylweddol ac yn debygol o wneud hynny am gryn amser. Mae'r heriau a ddechreuwyd gyda'r pandemig o ran recriwtio yn parhau i fodoli ac yn parhau i fod yn eithriadol o anodd recriwtio ar gyfer rhai meysydd o arbenigedd. Mae absenoldeb staff wedi cynyddu gyda straen a gorbryder yn rhai o'r prif achosion, ac mae hynny'n achos o bryder. Ond wedi dweud hynny mae amseroedd aros ysbytai yn ffactor hefyd i allu dychwelyd staff yn ôl i waith yn ddiogel. Ond rydym yn cymryd ein dyletswydd gofal am staff o ddifri ac yn gweithredu nifer o fesurau i gefnogi iechyd a lles staff. Mae'r Polisi Doethwaith a'r Polisi Gweithio Hybrid newydd yn helpu 40% o'n gweithlu i weithio mewn ffordd fwy hyblyg ac o bell. Rydym wedi cyhoeddi ein datganiad cyflog ac wedi adolygu ein polisi gwerthusiad swydd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyflog gyfartal. Rydym bellach yn edrych ar gyflwyno ein hymagwedd ddiwygiedig i gyfarfodydd staff un-i-un - Sgwrs Conwy - a fydd yn cryfhau ein diwylliant ac yn cefnogi amgylchedd lle mae gweithwyr yn teimlo bod ganddyn nhw lais a'u bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi. Byddwn hefyd yn parhau gyda chyflawni ein Cynllun Dysgu a Datblygu sydd nid yn unig yn cefnogi datblygiad personol a phroffesiynol ond hefyd yn cefnogi iechyd a lles. Mae gennym lawer o waith i'w wneud hefyd mewn hyrwyddo Conwy Gynhwysol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb unigol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn hefyd yn edrych ar gwrdd gofynion newydd o dan y Ddeddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023.

## 10.6. Asedau

Yn ystod 2023 i 2024 mae'r cyngor wedi dangos ei fod yn rhagweithiol yn y ffordd mae'n rheoli asedau allweddol a bod ganddo ddim ofn gwneud penderfyniadau anodd. Mae ei strategaeth rhesymoli swyddfa frwdfrydig yn dystiolaeth o hynny ond hefyd y penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud i gael gwared, gosod neu newid defnydd eiddo yn ei bortffolio. Mae ein hymdrechion wrth ymateb i'r broblem gyda Choncrit Awyredig wedi'i Awtoclafio yn arbennig i'w ganmol. Rydym wedi adolygu Strategaeth Ddigidol Conwy ar gyfer 2024 i 2025 ac rydym wedi cael ein sicrhau fod trefniadau cadarn yn

parhau i fod mewn lle ar gyfer ein hasedau a'n hisadeiledd TGCh gydag ymagwedd ragweithiol i reoli risg yn benodol. Heb amheuaeth bydd penderfyniadau anoddach fyth i'w gwneud am ein hasedau yn y dyfodol wrth i ni ymateb i heriau ariannol. Bydd pob ymdrech yn cael ei gymryd i sicrhau fod effaith y penderfyniadau hynny yn cael eu hasesu a'u deall yn llwyr a bod egwyddorion y cyfranogi yn cael ei weithredu drwyddo.

### 10.7. Caffael

Mae gennym gefnogaeth a phrosesau caffael effeithiol yn eu lle a gyda chymeradwyaeth ym mis Mehefin 2023 wedi gweithredu strategaeth amlwg i sicrhau ein bod yn parhau i reoli ein gwariant yn gyfrifol ac yn sicrhau gwerth am arian. Mae datgarboneiddio ein cadwyn gyflenwi (sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'n hôl-troed carbon) yn flaenoriaeth amlwg yn y strategaeth yn ogystal â chaffael cyfrifol sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol. Mae newid sylweddol ar y gweill gyda chyflawni gweithgaredd caffael sector gyhoeddus a bydd heriau gyda gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd heb anghofio pwysau o ran cymhwysedd. Bydd angen mwy o amser a gwaith cynllunio i gwrdd â gofynion yr hysbysiad, h.y. cyn y gallwn gaffael unrhyw waith, nwyddau neu wasanaethau a bydd angen newid y diwylliant mewn gwasanaethau o ran yr ymagwedd at gaffael.

## 11. Gwiriwr Taith - Ffyrdd Newydd o Weithio

Ym mis Chwefror 2024, ysgrifennodd y Comisiynydd Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol at gyrff cyhoeddus i gyhoeddi'r Gwiriwr Taith - Ffyrdd Newydd o Weithio sy'n helpu sefydliadau i fyfyrio ar eu defnydd o'r pum ffordd o weithio; asesu eu cynnydd o ran darparu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a darparu rhywfaint o awgrymiadau defnyddiol ar sut i wella a'r camau nesaf i ganolbwyntio arnynt ar gyfer y dyfodol. Gofynnwyd i gyrff cyhoeddus gwblhau'r ymarfer erbyn mis Medi.

Cwblhawyd yr offeryn asesu ar ran y cyngor gan y Tîm Perfformiad a Gwelliant gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut mae'r sefydliad yn gweithio. Gofynnwyd 63 o gwestiynau yn yr asesiad yn seiliedig ar y pum ffordd o weithio a oedd yn ymwneud â **Phroses** a **Phobl** a **Diwylliant** yn y cyngor. Ar ôl ateb y cwestiynau cynhelir asesiad ar gynnydd cyffredinol ein siwrnai o fewn pob ffordd o weithio. Mae canlyniadau posibl yr asesiad yn amrywio o **Dim Newid (1)**, i **Newid Syml (2)**, **Mwy Mentrus (3)**, **Perchnogi Uchelgais (4)**, ac yn olaf, **Arwain y Ffordd (5)**. Yn ogystal â'r Hunanasesiad rydym wedi cynnwys canlyniadau ein hasesiad isod.

## 11.1. Proses

| Egwyddorion | Canlyniad |
|---|---|
| Hirdymor | Mwy Mentrus (3) |
| Atal | Perchnogi Uchelgais (4) |
| Cyfranogi | Perchnogi Uchelgais (4) |
| Cydweithio | Perchnogi Uchelgais (4) |
| Integreiddio | Perchnogi Uchelgais (4) |

Rydym yn falch iawn o’r canlyniadau uchod o ran proses y cyngor sy’n adlewyrchu’r cyfanswm mawr o waith sydd wedi cael ei wneud yn y sefydliad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a’r pum ffordd o weithio yn ein systemau a’n prosesau. Mae angen gwneud rhagor o waith wrth flaenoriaethu a chydbwyso ein canlyniadau a chamau hirdymor ar y cyd â’n gofynion tymor byr a chanolig.

## 11.2. Pobl a Diwylliant

| Egwyddorion | Canlyniad |
|---|---|
| Hirdymor | Mwy Mentrus (3) |
| Atal | Perchnogi Uchelgais (4) |
| Cyfranogi | Perchnogi Uchelgais (4) |
| Cydweithio | Mwy Mentrus (3) |
| Integreiddio | Mwy Mentrus (3) |

Ar y cyfan rydym yn falch gyda’r canlyniadau uchod o ran Pobl a Diwylliant. Eto rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i’n helpu gyda’n huchelgais hirdymor. O ran integreiddio a chydweithio gellir gwneud mwy i rannu dealltwriaeth ac i weithredu ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach. Gallwn hefyd wneud mwy i ddeall ein heffaith ar eraill wrth ddylunio amcanion ac i rannu ein gwaith a’r hyn yr ydym wedi’i ddysgu. Mae’n bwysig deall pwysigrwydd cydweithio da a darganfod ffyrdd newydd ac effeithiol o weithio ledled y sefydliad.